
Office for Product
Safety & Standards




# Gall batris botwm frifo neu ladd eich plentyn


Mae batris botwm yn adweithio â phoer i greu soda costig, sy'n cael ei ddefnyddio i agor draeniau. Os bydd plentyn yn llyncu batri botwm a bod hwnnw'n mynd yn sownd yn ei bibell fwyd, gall losgi twll. Mae hyn yn creu gwaedu mewnol ac fe all ladd.

**Storiwch bob batri botwm allan o gyrraedd eich plentyn**

(25064-WEL-1) 31.125_DBT_OPSS Ingestion Campaign_4pp_A5 Leaflet_Button Batteries_v4_Final_Print.indd 1 19/08/2025 15:49:07

## Beth yw batris botwm?

Dyma fatris bach crwn sy'n hawdd eu llyncu. Batris lithiwm mwy o faint yw'r rhai mwyaf peryglus. Maen nhw tua'r un maint â darn pum ceiniog. Gall y batris lleiaf gael eu gosod mewn mannau fel y clustiau a'r trwyn.





## Chwiliwch o gwmpas eich cartref am fatris botwm

Maen nhw i'w cael yn y canlynol:



**teclynnau rheoli tenau**



**teclynnau ffeindio allweddi**


**cyfrifianellau**



**thermomedrau**



**ffobiau allweddi car**


**watshis**



**clorian y gegin neu'r ystafell ymolchi**


**clustffonau i chwarae gemau**


**goleuadau nos heb fflam**


**bys-droellwyr â goleuadau LED**


**cymhorthion clyw**


**nwyddau bach gwirion fel hudlathau neu fandiau gwallt sy'n fflachio, teganau bygiau robot neu bysgod**

(25064-WEL-1) 31.125_DBT_OPSS Ingestion Campaign_4pp_A5 Leaflet_Button Batteries_v4_Final_Print.indd 2 19/08/2025 15:49:11




## Gwnewch yn siŵr bod eich cartref a'ch teulu'n ddiogel

- Storiwch fatris botwm mewn lle diogel, yn uchel ac allan o gyrraedd eich plentyn.

- Wrth agor pecynnau, gwnewch yn siŵr na fydd batris yn disgyn ar y llawr.

- Os gwelwch chi bethau lle nad yw'r lle i'r batri wedi'i gloi, symudwch nhw allan o gyrraedd plant. Os yw'r eitem yn ddiffygiol, trwsiwch hi neu ei gwaredu'n ddiogel. Gallwch hefyd roi gwybod am deganau diffygiol drwy Gyngor ar Bopeth yng Nghymru a Lloegr, Advice Direct yn yr Alban neu'ch cyngor dosbarth lleol yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n **rhaid** i'r lle i'r batri botwm mewn teganau fod wedi'i gloi fel na all plant gyrraedd y batri.

- Dywedwch wrth blant hŷn pam mae batris botwm yn beryglus. Eglurwch pam na ddylen nhw chwarae gyda nhw na'u rhoi i blant ifanc.

- Gwaredwch fatris botwm sydd wedi'u defnyddio cyn gynted ag y gallwch. Maen nhw'n dal yn anniogel.

(25064-WEL-1) 31.125_DBT_OPSS Ingestion Campaign_4pp_A5 Leaflet_Button Batteries_v4_Final_Print.indd 3 19/08/2025 15:49:11

Office for Product Safety & Standards

## Ewch ati'n gyflym

Os ydych chi'n meddwl bod eich plentyn wedi llyncu batri botwm, **ewch yn syth i'r Adran Frys** neu ffoniwch ambiwlans.

Efallai y bydd eich plentyn:

- yn pesychu
- yn tagu neu'n glafoerio
- yn pwyntio at y llwnc neu'r stumog

## Cofiwch:

- ewch ati'n gyflym, hyd yn oed os nad oes symptomau
- ewch â phecyn y batri, y tegan neu'r teclyn gyda chi os gallwch chi

## Peidiwch:

- â gadael i'ch plentyn fwyta neu yfed
- â gwneud i'ch plentyn gyfogi

(25064-WEL-1) 31.125_DBT_OPSS Ingestion Campaign_4pp_A5 Leaflet_Button Batteries_v4_Final_Print.indd 4 19/08/2025 15:49:12